




O ganol yr eira.....

Mwynhewch eich cylchlythyr gaeaf, sy'n rhoi'r diweddaraf ichi am weithgareddau diweddar a'r rhai i ddod o eiddo Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych, tîm AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, ynghyd â'n gwirfoddolwyr a'n partneriaid allweddol a gwerthfawr.

Cliciwch yma i ddarllen ein Newyddion yn Saesneg

Galwad am Wirfoddolwyr

Rydyn ni'n edrych am fwy o wirfoddolwyr i helpu rheoli'r cefn gwlad amhrisiadwy sy gynnon ni. Mae'r gweithgareddau'n amrywio o adeiladu Waliau Cerrig Sychion – trwodd at goedlannu, llosgi grug a rheoli glaswelltir. Nid yn unig mae ymwneud â gwaith cadwraeth ymarferol yn foddhad, mae hefyd yn fodd i'ch cael chi allan i fannau anghysbell yn y sir gyda golygfeydd trawiadol.

Mae'r offer i gyd ar gael i chi, felly dim ond angen ichi ddod â phecyn cinio, esgidiau cryfion a brwdfrydedd!

Mae'n gyfle gwych i gyfarfod pobl, cadw'n iach a dysgu sgiliau newydd – ac yn bwysicach na dim – i gael hwyl.

[Rhaglen Wirfoddoli](#)

Cerdded eich ffordd at well iechyd yn 2013

Cerdded ydi un o'r ffyrdd gorau i wella'ch iechyd, mae'n rhad ac am ddim ac yn gwneud ichi deimlo'n dda. Gall cerdded yn rheolaidd leihau risg llawer i afiechyd, helpu cadw rheolaeth ar bwysau ac yn weithgaredd cymdeithasol. Mae'r teithiau cerdded dan arweiniad gwirfoddolwyr hyfforddedig. Cynhelir troeon yn Llanellwyr, Yr Wyddgrug, Gwaunysgor, Y Fflint, Bwcle, Dinbych, Talacre, Diserth, Caerwys, Helygain, Rhuddlan, Licswm a Llanasa.


Treffynnon ydi'r ardal ddiweddaraf i ymuno a rhaglen troeon Troedio Clwyd. Cyfarfod yng Nghanolfan Hamdden Treffynnon pob dydd Mawrth am 1yp. Croeso i bawb. [Rhaglen Gerdded](#)

Gŵyl Gyfeiriannu

Er gwaetha'r glaw llifeiriol yn niwedd mis Medi, cymerodd 273 o blant o 10 ysgol gynradd yn Sir Ddinbych ran mewn gŵyl gyfeiriannu yn y parcdir o amgylch Castell Bodelwyddan. Diolch i'r holl staff a gwirfoddolwyr fu'n gymorth i wneud yr ŵyl yn llwyddiant ysgubol.

Sir Ddinbych o fewn Cyrraedd

Mae adran newydd ar wefan Cefn Gwlad Sir Ddinbych wedi'i datblygu er mwyn cynnig gwybodaeth fanwl am safleoedd a throeon cyraeddadwy oddifewn i'r Sir. Mae gwybodaeth a ddarperir oddifewn i'r mapiau rhyngweithiol yn caniatáu i bob defnyddiwr benderfynu os ydi llwybr yn addas i'w anghenion a'u gallu unigol nhw. Ewch at www.cefngwladsirddinbych.org.uk



Chwalu'r Chwyn – llwyddiant am y 4^{edd} flwyddyn!

Mae'r canlyniadau'n galonogol iawn ac mae ardaloedd a fu unwaith dan ddylanwad y ffromlys chwarennog bellach ag amrywiaeth blodeuegol unwaith eto. Mae partneriaid, cefnogaeth tirfeddianwyr, gwaith gwirfoddol a chydweithrediad y gymuned yn parhau'n hanfodol.



Gwylwch y gwyllt!

Mae ariannu wedi'i sicrhau er mwyn ffilmio bywyd yn Loggerheads. Y nod ydi cynhyrchu darn o ffilm ar fywyd gwyllt trwy'r tymhorau ac mewn mannau cudd er mwyn datgelu cipolwg o'r Parc fel ciplun o fywyd yn yr Ardal hon o Harddwch Naturiol Eithriadol. Fe fydd criw bywyd gwyllt proffesiynol yn ffilmio am flwyddyn a bydd DVD ar gael ac uchafbwyntiau'n cael eu dangos yn yr ystafell Glyweled yn Loggerheads.

Taith gerdded Gaeaf yr Aelodau.

Cafodd aelodau Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy fwynhau taith gerdded gaeaf i Ddinas Bran i weld rhai o'r gwelliannau diweddar.

[Edrych ar ôl bywyd gwyllt yn eich gardd y gaeaf hwn.](#)

[Cynffonau sidan yn heidio i Ruddlan](#)

Mae'r adar bach hyfryd hyn yn ymfudo o wledydd Llychlyn, lle maen nhw'n bridio, pan fydd yr aeron maen nhw'n bwydo arny'n nhw'n prnhau.

Gweler [Cylchlythyr Rhwydwaith Bioamrywiaeth Gogledd Ddwyrain Cymru](#) er mwyn canfod mwy am lwyddiant ein llyffaint y twyni eleni

Crefftau'r Gymuned!

Mae gwirfoddolwyr lleol yn gweithio gyda'n wardeniaid i reoli Hen Ardd, gwlyptir bach yng nghanol calon pentref Eryrys. Fe gafodd y pentrefwyr fwynhad wrth greu torchau tymhorol a phlannu obelisgau gan ddefnyddio'r helygen a docwyd er mwyn budd i fywyd gwyllt.



Coedwigwyr Ifanc

Mae Coedwigwyr Ifanc Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn cyfarfod un diwrnod y mis i weithio ar dasgau cadwraeth. Mae'r rhain yn cynnwys tocio/prysgoedio, gwaith ar erydiad llwybrau a helpu mewn digwyddiadau. Mae'r aelodau hefyd yn mwynhau taith antur bob blwyddyn - ymweliad yn yr hydref i Tree Tops ym Metws y Coed. E-bostiwch am fanylion



Tywydd gwlyb yn tarfu ar y môr-wenoliaid bach

Roedd hi'n gymysgedd o emosiynau yng Ngronant eleni wrth i dymor bridio'r môr-wennol fach gychwyn yn dda, gyda 125 o barau, record ar gyfer y safle hwn. Fodd bynnag, rhwng y glaw, llanwau uchel a'r rheibio gan y cudyll coch, effeithiwyd yn ddirfawr ar y canlyniad cyffredinol gyda rhwng 27 a 47 o adar ifanc llwyddiannus. Y gobaith ydi y gwelwn ni well 2013. Trwy gydol y tymor nythu o Fehefin 4^{ydd}, cewch gyfle i gwrdd ag un o'r wardeniaid pob dydd Mawrth am 11yb ar gyfer 'Hynt y Fôr-wennol Fach'. Gwnewch eich ffordd eich hun at y llwyfan gwyllo. Mae parcio ar gael yng Ngronant Isaf (gyferbyn â Chaffi Crofters Pantry), SJ090836, yna cerddwch i lawr at fynedfa Presthaven, lle fyddwch yn troi i'r chwith i ddilyn Llwybr yr Arfordir.

Rhaglen App Newydd ar gyfer Beicio Mynydd Oddi-ar-y-ffordd

Lawrlwythwch ein rhaglen App iffôn newydd - arweiniad i lwybrau beicio mynydd ym Mryniau Clwyd a Bro Hiraethog. Mae'r Ride North Wales App yn rhoi dewis o lwybrau, eich galluogi i weithio allan lle ydych chi mewn amser real ac yn darparu gwybodaeth ynglŷn â thrafnidiaeth gyhoeddus a chyfleusterau lleol. Mae gwaith ar ddatblygu fersiwn Android ar droed ar gyfer yn hwyrach eleni. [App Beicio Gogledd Cymru](#)

Prestatyn yn Blaguro

Llwyddodd Coed y Morfa, coetir cymunedol ym Mhrestatyn, i dderbyn Gwobr Gymunedol Baner Werdd yn 2012. Ar y cyd rhwng y Gwasanaeth Cefn Gwlad, gwirfoddolwyr a Chymdeithas Amgylcheddol Prestatyn a'r Cylch, trawsffurfiwyd yr hen safle tirlenwi hwn yn fan agored poblogaidd o wyrddni. Eleni, mae cynlluniau ar droed i gynnal digwyddiadau er mwyn mynd i'r afael â'r man picnic ym mis Mawrth a chadw coed yn hwyrach yn y flwyddyn. [Rhaglen Wirfoddoli](#). Rhandiroedd cymunedol wedi'u hadeiladu ar y safle gan gynnwys creu 50 o welyau tyfu wedi'u codi, wedi'u cynllunio'n arbennig er mwyn ei gwneud hi'n haws chwynnu a rheoli'r llain, gosod cyflenwad dŵr, adeiladu biniau compost cryf a gwneud gwelliannau mynediad. E-bostiwch am fanylion. Adeiladwyd y Biniau Compost gan Wirfoddolwyr



Adfywio'r Gwrychoedd

Y mae'r gelfyddyd draddodiadol o blygu gwrych yn golygu torri'r gwrych nôl er mwyn lleihau'r trwch a'r uchder, trwy dorri pob coeden yn ei bôn a'i blygu ar ongl benodol. Mae hyn yn sicrhau bod gwrych yn parhau'n wrth-stoc tra'n annog tyfiant o fôn y gwrych. Fe blygwyd gwrychoedd yng Ngwarchodfa Natur Rhuddlan, Llwybr Prestatyn Diserth a Phwll y Brickfield.



Ymwelwch â gwefan newydd, gwell AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Rhowch HOFFI ar Facebook: Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych, AHNE Bryniau Clwyd a Pharc Gwledig Loggerheads.

Gwylwch allan am argraffiad newydd o gylchgrawn Darganfod Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, fydd allan yn y gwanwyn, taflen newydd ar gyfer yr AHNE a chyfleoedd newydd am deithiau ysgol yn Loggerheads. Ewch i'n gwefan am fanylion:

www.cefngwladsirddinbych.org.uk neu galwch yng Nghanolfan Bryniau Clwyd yn Loggerheads – bellach ar agor pob dydd (heblaw diwrnod Nadolig).

Rhai o'n digwyddiadau sy ar y gweill.....

Dydd Llun, Chwefror 11

Taith Gerdded Cynnar y Gwanwyn

10 yb– 12yp

Dewch i chwilio am arwyddion y gwanwyn yng nghyffiniau Rhaeadr yr Oernant ac Eglwys Llandysilio. Cyfarfod ym mae parcio Grŵn Llandysilio am dro bach i bawb o'r teulu (rhai giatiau moch ar y daith) SJ198433.

Ysgol Undydd Archaeoleg

Sgynnoch chi ddiddordeb mewn Archaeoleg? Dewch i ganfod mwy am gloddiadau lleol, diweddar yn Theatr Twm o'r Nant yn Ninbych ar ddydd Sadwrn, Chwefror 23^{ain}. Bydd siaradwyr o grwpiau lleol a Phrifysgolion Bangor, Caer, Rhydychen a Lerpwl yno i ddweud wrthym ni be sy wedi bod yn digwydd mewn safleoedd yn amrywio o Fryngaer Penycloddiau i Golofn Eliseg, Castell Holt a Moel y Gaer, Bodfari. Loggerheads.countrypark@denbighshire.gov.uk 01824 810586 am fwy o wybodaeth.

Dydd Mercher, Mawrth 13

Arweiniad i ddarllen mapiau i gychwynwyr.

2yp – 4.30yp

Darllen mapiau sylfaenol i'r rhai hynny sy'n dymuno adolygu eu gwybodaeth. Bydd cyfle am dro bach er mwyn ichi ymarfer eich sgiliau. Cyfarfod ym Mharc Gwledig Loggerheads.

Dydd Sadwrn, Mawrth 23

Diwrnod y Galon Fawr ger Pwll y Brickfield

12yp – 4yp

Dathlwhch gael bod yn iach yn yr awyr agored, cymryd rhan mewn troeon cerdded hawdd, gwnewch bethau anhygoel allan o ddeunyddiau wedi'u hail-gylchu a bod yn dyst i ddadorchuddio panel newydd. Pwll y Brickfield, Y Rhyl.

[Gweler mwy o ddigwyddiadau](#)

Mae Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych byth a hefyd yn gwneud ceisiadau ariannu er mwyn sicrhau bod prosiectau'n parhau i wella cefn gwlad ar gyfer bioamrywiaeth, tirwedd, y gymuned ac ymwelwyr. Eleni, fe lwyddom i ddenu dros £400,000 eto.

Hoffwn ddiolch i'n partneriaid a'n harianwyr am eu gwaith a'u cyfraniadau rhagorol. Mae rhai wedi'u rhestru isod:

Prosiect Cerdded gydag Offa a Phrosiect Twristiaeth Werdd wedi'u hariannu trwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013, sy wedi'i ariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

Cronfa Datblygiad Cynaliadwy AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Communities and Nature, Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

Visit Wales, Cycling Centre of Excellence

Rights of Way Improvement Plan

Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Cronfa Treftadaeth y Loteri Comisiwn Coedwigaeth Cymru

Cynghorau Sirol Dinbych, Y Fflint a Wrecsam